

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/2647/20

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

23 Medi 2020

Annwyl John

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Awst ac am anfon copi o adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar anghydraddoldeb yn ystod pandemig COVID-19 atom.

Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ymgymryd â'r gwaith hwn a byddwn yn ymdrin â phob argymhelliad a wnaed gennych yn unigol. Gan fod nifer mawr o argymhellion, mae'r ymatebion wedi cael eu rhoi mewn Atodiad i'r llythyr hwn.

Gobeithiwn y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', set against a light grey, textured rectangular background.

Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jane Hutt', written in a cursive style.

Jane Hutt AS/MS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Argymhelliad 1 – Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod asesiad effeithiol o'r effaith ar gydraddoldeb, a dadansoddiad o'r effaith ar hawliau dynol, yn cyd-fynd â phob penderfyniad polisi neu ddeddfwriaethol mawr. Dylid cyhoeddi'r ddau ar-lein a dylid anfon copïau at y Pwyllgor hwn i'w hadolygu.

Derbyn.

Mae'r Prif Weinidog wedi bod yn glir bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru roi ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol wrth wraidd yr ymateb i'r pandemig ac adferiad yng Nghymru, ac y bydd yn gwneud hynny, ac mae ein gwaith wedi cadw hyn fel yr egwyddor arweiniol drwyddi draw.

Mae pob rhan o'r Llywodraeth, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, wedi gwneud ymdrech sylweddol i ddeall yr effeithiau sy'n deillio o COVID-19 a'r mesurau y mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eu rhoi ar waith i reoli COVID-19.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y dull gweithredu mae'n ei ddefnyddio i asesu a yw amodau yn caniatáu i gyfyngiadau symud penodol gael eu llacio, a phryd y bydd hyn yn digwydd, yn *Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: Fframwaith ar gyfer adferiad* ar 24 Ebrill ac yn *Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi: dal i drafod* ar 15 Mai. Mae'r ddwy ddogfen yn ymgorffori ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau y bydd penderfyniadau i lacio cyfyngiadau symud yn ceisio cyflawni '*effaith gadarnhaol iawn ar gydraddoldeb*'.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi asesiadau cydraddoldeb y mesurau i reoli COVID-19 sy'n cwmpasu'r adolygiadau 21 diwrnod. Gellir dod o hyd i'r rhain ar y wefan yn:

<https://llyw.cymru/asesiadau-o-effaith-coronafeirws>.

Mae'r dogfennau hyn yn amlinellu amcanion polisi'r Llywodraeth ac yn crynhoi effeithiau mesurau i reoli COVID-19.

Caiff asesiadau effaith pellach mewn perthynas â deddfwriaeth a chanllawiau ar gyfer y coronafeirws eu cyhoeddi maes o law. Byddwn yn ceisio dysgu gwersi o'r misoedd diwethaf er mwyn sicrhau bod ystyried effaith yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau.

Argymhelliad 2 – Dylai Llywodraeth Cymru weithredu ar unwaith i wella ansawdd o ran cofnodi data cyflogaeth ynghylch ethnigrwydd ac anabledd ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Derbyn

Mae eich adroddiad yn tynnu sylw, yn gywir ddigon, at yr angen i gael data gwell am anghydraddoldebau er mwyn sicrhau ein bod yn deall y risgiau a wynebir gan grwpiau gwahanol a'n bod mor gynhwysol â phosibl wrth lunio polisiâu. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau i wella ansawdd tystiolaeth am ethnigrwydd a marwolaethau o'r coronafeirws drwy roi'r e-ffurflen ar waith, gan gynnwys ar gyfer gweithwyr gofal iechyd. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn y GIG ac yn y sector gofal cymdeithasol er mwyn eu hannog i gofnodi data ynghylch ethnigrwydd ac anabledd yn well, a hynny yng nghofnodion staff ac mewn cofnodion iechyd ehangach.

Mae data'r gweithlu gofal cymdeithasol ar ethnigrwydd yn cael eu casglu ar hyn o bryd gan Ofal Cymdeithasol Cymru drwy eu harolygon blynyddol. Bydd y gofyniad i gofrestru gweithwyr gofal cartref (a gafodd ei gyflwyno ym mis Ebrill 2020) a gweithwyr gofal cymdeithasol mewn cartrefi gofal preswyl (a fwriedir ei wneud yn ofynnol o fis Ebrill 2022 ymlaen) yn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i gasglu data mwy cadarn ar ethnigrwydd yn y dyfodol.

Fodd bynnag, nid ymwneud â chasglu data yn unig a wna hyn. Mae angen inni hefyd ddeall pam y gallai dinasyddion deimlo nad ydynt am ddarparu'r wybodaeth hon i wasanaethau cyhoeddus a pham mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei chael hi'n anodd sicrhau y cofnodir data o ansawdd da. Felly, mae angen dull gweithredu amlweddol i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys barn defnyddwyr. Byddwn yn ystyried cyfleoedd i rannu negeseuon allweddol am fanteision cofnodi data o'r fath a chyfleoedd hyfforddiant er mwyn annog gweithwyr y GIG ac awdurdodau lleol i gofnodi data ethnigrwydd ym mhob system, ac yn annog pobl i ganiatáu i wybodaeth gael ei chofnodi.

Argymhelliad 3 – Dylai Llywodraeth Cymru wella'r prosesau ar gyfer casglu a chyhoeddi data ar achosion coronafeirws a chanlyniadau iechyd wedi'u dadgyfuno yn ôl rhyw, ethnigrwydd, anabledd a statws gweithiwr allweddol. Dylai hyn gynnwys, lle bo angen, nodi dulliau casglu amgen a ffynonellau data newydd.

Derbyn

Rydym yn parhau i ehangu amrywiaeth y data a gaiff eu casglu a'u cyhoeddi ynghylch COVID-19 a chanlyniadau iechyd. Ym mis Mehefin, gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad o'r meysydd lle gallai'r coronafeirws fod wedi cael effaith anghymesur ar leiafrifoedd ethnig, gan gynnwys cyflogaeth, tai ac amddifadedd. Rydym wedi rhoi pwysau ar y Swyddfa Ystadegau Gwladol i gyhoeddi ystadegau i Gymru am farwolaethau COVID-19 fesul grŵp ethnig a fesul grŵp galwedigaeth, a byddwn yn parhau i weithio gyda nhw i sicrhau bod eu dadansoddiad o farwoldeb yn ein helpu i ddeall y canlyniadau i grwpiau yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ei bod yn bwysig defnyddio dulliau newydd ac amgen er mwyn deall COVID-19 a chanlyniadau iechyd yn ôl nodweddion wedi'u dadgyfuno. Mae dadansoddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cysylltu data ysbytai â marwolaethau a gofrestrwyd, wedi helpu i ddangos effaith y coronafeirws ar bobl ag anableddau dysgu: <https://phw.nhs.wales/publications/publications1/covid-19-related-deaths-in-wales-amongst-people-with-learning-disabilities/>

Mae'r math hwn o ddadansoddiad yn dangos y ddealltwriaeth newydd y gellir ei meithrin drwy gysylltu data. Dyma pam ein bod wedi sicrhau mynediad at Gyfrifiad 2011 er mwyn cefnogi ein hagenda ymchwil data cysylltiol uchelgeisiol ac yn parhau i roi pwysau ar adrannau llywodraeth y DU i rannu data gweinyddol a fydd yn ein helpu i ddeall canlyniadau grwpiau gwahanol o'r boblogaeth. Mae angen gwneud hyn ochr yn ochr â gwaith i wella ansawdd y data gweinyddol a ddelir.

Argymhelliad 4 – Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu'r adolygiad o ddyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus Cymru, gan ganolbwyntio ar gryfhau gorfodaeth a chasglu data cyflogaeth.

Derbyn

Cafodd yr adolygiad o Ddyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru (PSED) ei ohirio dros dro yn ystod misoedd cyntaf pandemig COVID-19 gan y bu'n rhaid adleoli adnoddau i ganolbwyntio ar waith cydraddoldeb a hawliau dynol arall. Mewn ffordd debyg,

cafodd rhwymedigaethau adrodd PSED eu gohirio am chwe mis o fis Mawrth 2020 gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Os bydd adnoddau ar gael, bydd gwaith adolygu PSED yn ailddechrau, gan adeiladu ar waith sydd eisoes yn mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru i wella'r ffordd y caiff data cyflogaeth a data am anghydraddoldebau eraill eu casglu a'u cyhoeddi. Bydd canfyddiadau'r gwaith ymchwil parhaus i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru yn ffynhonnell bwysig o dystiolaeth ar gyfer gwaith adolygu PSED. Rhagwelir y bydd y gwaith helaeth sy'n mynd rhagddo i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn taflu goleuni ar y ffordd orau o gryfhau dyletswyddau Cymru a gwella trefniadau gofodi a phrosesau casglu data.

Argymhelliad 5 – Dylai Llywodraeth Cymru fynegi rheidrwydd a chymesuredd yr holl gyfyngiadau presennol yn ei dadansoddiad hawliau dynol, a gyhoeddir ochr yn ochr â phob adolygiad 21 diwrnod.

Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ystyried hawliau dynol ar bob cam o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae'r Prif Weinidog wedi nodi'n glir y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cydraddoldeb a hawliau dynol wrth wraidd yr ymateb i COVID-19 yng Nghymru.

Caiff angenrheidrwydd a chymesuredd yr holl gyfyngiadau sy'n weddill, fel y'u nodir yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020, eu hystyried bob 21 diwrnod. Byddwn yn cyfleu hyn yn nogfennau ategol pob adolygiad 21 diwrnod, er mwyn gwneud yn glir bod y dadansoddiad hwn wedi'i gynnal.

Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r enghreifftiau a roddir yn yr adroddiad, megis gofal cymdeithasol a dyletswyddau ar Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, yn feysydd yr ymdrinnir â nhw'n uniongyrchol yn y rheoliadau hyn.

Argymhelliad 6 – Dylai Llywodraeth Cymru wneud yr hyn a ganlyn:

- **'diffodd' y mesurau yn Neddf Coronafeirws 2020 sy'n llacio dyletswyddau gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl; a**
- **chyhoeddi data ar nifer y bobl y mae'r mesurau hyn yn effeithio arnynt, wedi'u dadgyfuno yn ôl nodweddion gwarchoddedig.**

Derbyn yn rhannol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Rydym yn cydnabod pryderon pobl yn ystod y pandemig hwn yn llwyr ynghyd ag effaith y camau angenrheidiol mewn cymunedau i ddiogelu pobl ac i atal yr haint rhag lledaenu. Mae mesurau ataliol megis cadw pellter cymdeithasol, cau cyfleusterau cyhoeddus a chymunedol, cyfyngu ar allu teuluoedd, ffrindiau a phobl eraill i ymgynnull mewn aelwydydd unigol ac mewn mannau cyhoeddus wedi golygu nad yw gweithgareddau gofal cymdeithasol a chymorth wedi bod ar gael. Yn fwy nag erioed, rydym ni, fel Gweinidogion Cymru, wedi ceisio darparu eglurder ac arweiniad yn ystod y cyfnod ansicr hwn.

Mae'r darpariaethau yn Neddf y Coronafeirws 2020 (Deddf 2020) sy'n ymwneud â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau statudol cysylltiedig, yn darparu fframwaith cadarn a thryloyw y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei ddilyn cyn

defnyddio darpariaethau Deddf 2020, os bydd angen. Gallaf gadarnhau fy nhystiolaeth gynharach a oedd yn adlewyrchu tystiolaeth arweinyddiaeth llywodraeth leol nad oes unrhyw awdurdod lleol wedi defnyddio'r pwerau hyn.

Drwy'r canllawiau, rydym wedi sicrhau eglurder o ran parhau â dull seiliedig ar hawliau ar gyfer gofal cymdeithasol ac wedi darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd i fynd i'r afael ag anghysondebau posibl a'u lliniaru. Er gwaethaf cyfyngiadau'r pandemig, gwnaethom gynnal ein dull cydgynhyrchiol wrth ddatblygu'r canllawiau hynny, er yn llawer cyflymach, gan weithio gyda rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru, gan gynnwys y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl a gaiff ei gadeirio gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, er mwyn llunio a chyhoeddi cyngor sy'n diogelu ac yn hyrwyddo hawliau.

Yn wir, roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i'r Pwyllgor yn croesawu'r canllawiau sy'n cadarnhau bod dyletswyddau o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, y Ddeddf Cydraddoldeb a PSED yn parhau i fod ar waith. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi bod addasiadau am gyfnod penodol a'u bod wedi'u gosod gyda'r disgwyliad clir y bydd unrhyw newidiadau i ofal a/neu gymorth unigolion yn dychwelyd i'w trefniadau cyn iddynt gael eu haddasu cyn gynted ag y bo modd.^[1]

Rydym am roi tawelwch meddwl i Aelodau'r Pwyllgor y bydd ein dull yn parhau i gael ei lywio gan ymarferion ymgysylltu a thystiolaeth. Drwy gydol y pandemig, mae'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl ynghyd â nifer o drefniadau eraill, megis cyfarfodydd wythnosol â'r Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Grŵp Cynllunio ac Ymateb Gofal Cymdeithasol traws-sector, wedi darparu dull parhaus i ystyried tystiolaeth a datblygu atebion.

Mae ein dull hefyd yn un trawsbortffolio. Ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 12 Awst yn gwahodd Arweinwyr Awdurdodau Lleol a Chadeiryddion Cynghorau Gwirfoddol Sirol i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gapasiti a chadernid awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol i ddarparu cymorth, ac unrhyw effeithiau neu heriau tymor hwy a ragwelwyd, yn ogystal â pha gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu. Bydd Gweinidogion yn parhau i gydweithio er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth glir a dealltwriaeth a rennir o'r angen am y trefniadau cymorth diogelwch hynny a'u hygyrchedd.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi argymhell y dylid cyhoeddi data am y rhai y mae Deddf 2020 wedi effeithio arnynt. Gan nad oes unrhyw awdurdod lleol wedi defnyddio'r pwerau hyn, nid oes data ar gael. Fodd bynnag, gallwn gadarnhau bod nifer y pecynnau gofal a chymorth sydd wedi'u lleihau neu eu tynnu'n ôl rhwng 13 Mai ac 31 Awst 2020 fel a ganlyn:

	Gan yr awdurdod lleol	Gan y darparwr	Gan yr unigolyn
Nifer y pecynnau	442	98	185

Ffynhonnell: Casgliadau Data COVID-19 Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol

Er mwyn gallu cymharu, mae nifer y ceisiadau newydd am ofal preswyl, gofal yn y cartref a chymorth ailalluogi yn ystod yr un cyfnod fel a ganlyn:

	Gofal preswyl	Gofal yn y cartref	Ailalluogi
Ceisiadau newydd	2,490	8,511	10,368

Ffynhonnell: Casgliadau Data COVID-19 Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol

Y camau nesaf

^[1] Tudalen 57 - <https://business.senedd.wales/documents/s102950/ELGC%20COV%2030%20-%20Equality%20and%20Human%20Rights%20Commission.pdf>

Yn unol â'n dull cynharach o roi darpariaethau Deddf 2020 ar waith yn seiliedig ar ymgysylltu a chydgyhyrchu, rwy'n bwriadu ysgrifennu at randdeiliaid i geisio eu barn am y darpariaethau gofal cymdeithasol yn Neddf 2020 a'r canllawiau cysylltiedig. Byddaf yn adrodd yn ôl i'r Aelodau am y canlyniadau. Os mai diddymu fyddai'r canlyniad, byddai'r canllawiau cysylltiedig hefyd yn cael eu diddymu.

Deddfwriaeth Iechyd Meddwl a Galluedd Meddyliol

Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ystyried y mater pwysig o ddiogelu hawliau cleifion sy'n cymryd rhan yng ngweithrediadau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn sgil y pandemig. Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddarparu rhagor o wybodaeth am faterion a godwyd yn yr adroddiad a allai fod wedi elwa o dystiolaeth bellach gan Lywodraeth Cymru neu, yn wir, Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, yr ymgynghorwyd â'r ddau ohonynt wrth lunio'r ymateb hwn.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru brif ddarpariaethau Deddf y Coronafeirws sy'n ymwneud â Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ar waith ar 27 Mawrth. Roedd yn rhaid eu cychwyn ar frys gan fod Llywydd y Tribiwnlys wedi rhoi gwybod bod ôl-groniad o 35 o achosion i'r Tribiwnlys eu gwrandao a oedd wedi cael eu hoedi neu eu gohirio ers dechrau mis Mawrth ac yr oedd angen eu hailrestru. Roedd naw o'r achosion hyn yn wrandawiadau a oedd yn ymwneud ag adran 2 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (gorchymyn 28 diwrnod i gadw person er mwyn ei asesu) yr oedd angen eu hailrestru ar unwaith. Ar ben hynny, roedd 144 o achosion wedi'u rhestru o 30 Mawrth ymlaen yn ogystal â 53 o achosion ychwanegol nad oeddent wedi'u trefnu eto. Ar y pryd, roedd hefyd yn ymddangos na allai ysbytai gynnal gwrandawiadau na galluogi cleifion i gyfranogi o bell.

Mae'r darpariaethau, a'r cyfarwyddyd ymarfer dilynol a gyhoeddwyd gan Lywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru gyda chytundeb y Prif Weinidog, yn caniatáu i'r Tribiwnlys gynnal gwrandawriad ag un aelod yn hytrach na'r tri aelod yn ôl yr arfer, ac ar bapur yn unig. Mae'n bwysig nodi y gallai'r Tribiwnlys eisoes gynnal gwrandawiadau dros y ffôn yn unol â Rheolau a oedd eisoes yn bodoli.

Ochr yn ochr â chychwyn darpariaethau'r Ddeddf a'r cyfarwyddyd ymarfer dilynol (a gyhoeddwyd gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru gyda chymeradwyaeth y Prif Weinidog), bu Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â phartneriaid er mwyn annog ysbytai i hwyluso gwrandawiadau dros y ffôn.

O ganlyniad, nid yw'r hyblygrwydd i leihau nifer yr aelodau o Tribiwnlys sy'n eistedd ar wrandawriad ac i benderfynu achosion ar bapur erioed wedi cael ei ddefnyddio. Mae'r holl wrandawiadau ers hynny (460 yn y cyfnod rhwng 23 Mawrth a 27 Awst) wedi cael eu cynnal dros y ffôn yn unol â'r rheolau a oedd eisoes yn bodoli. Nid oes ôl-groniad.

Mae'n bleser gennyf gadarnhau mai nifer y bobl yr effeithiwyd arnynt, ffigur y gofynnwyd amdano yn argymhelliad y Pwyllgor, yw sero.

I'r gwrthwyneb, yn Lloegr rydym ar ddeall bod gwrandawiadau wedi'u gwrandao gan un barnwr am o leiaf ddeufis a bod ôl-groniad o achosion. Ymhellach, yn Lloegr, mae cynnal gwrandawiadau ar bapur wedi bod yn ymarfer cyffredin mewn rhai categorïau o achosion ers sawl blwyddyn. Nid yw'r gofyniad cydsyniad yn Lloegr yn gofyn am ddatganiad cadarnhaol; mater i'r partïon yw gwrthwynebu'r cynnig am wrandawriad papur yn unig a gan fod y cleifion yn y categorïau perthnasol yn cael gofal yn y gymuned, fel arfer ni fyddant yn derbyn y cynnig neu ni fyddant yn ymateb iddo.

Nid ydym wedi nodi unrhyw dystiolaeth i gadarnhau'r honiad nad yw ysbytai yn cyflwyno prosesau yn ddigon cyflym i hwyluso'r gallu i ddatgelu nodiadau yn electronig neu hwyluso galwad ffôn â chyfreithwyr hyd yn oed.

Ar ei orau, damcaniaethol yw'r posibilrwydd o gynnal gwrandawiadau mewn ysbytai gan gadw pellter cymdeithasol, yn ôl profiad y rhai hynny sy'n gyfrifol am weithredu Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Hyd yn oed dan amgylchiadau arferol, nid oes gan wardiau ysbytai y cyfarpar na'r adnoddau i ddarparu ar gyfer cyfarfodydd mawr. Ni fyddai'r rhan fwyaf o'r ystafelloedd yn y 47 o leoliadau a ddefnyddir ar gyfer y Tribiwnlys yn caniatáu i fwy na dau neu dri o bobl fod yn bresennol yn unol â'r canllawiau presennol ar gadw pellter cymdeithasol, hyd yn oed os byddai rheoliadau'r coronafeirws yn cael eu llacio gan olygu y gellid cynnal cyfarfodydd dan do. Fel arfer, mae angen i wyth person fod yn bresennol mewn gwrandawriad syml, ond nid yw deg neu hyd yn oed ddeuddeg yn anarferol. Gall gwrandawiadau bara oriau, gyda'r holl risgiau sy'n gysylltiedig â bod mewn cysylltiad am gyfnod hir. Mae ystyriaethau ymarferol eraill hefyd, gan gynnwys diffyg awyru os na ellir agor ffenestri led y pen am resymau meddygol, a'r diffyg darpariaeth fideogynadleda gan nad yw hyn yn gyfleuster craidd i ysbytai na'u staff. Mae profiad o Loegr yn awgrymu mai ychydig o fanteision ychwanegol y byddai gwrandawiadau fideo yn eu cynnig i gleifion o gymharu â gwrandawiadau dros y ffôn. Byddai unrhyw un sy'n cael anhawster defnyddio ffôn am unrhyw reswm yn cael cymorth gan aelod o staff yr ysbyty y caniateir iddo fod yn yr ystafell gyda'r unigolyn. Yn dilyn sylwadau gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, rydym wedi penderfynu cadw darpariaethau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru sydd eisoes wedi'u rhoi mewn grym am o leiaf chwe mis arall.

Mae Atodlen 8 a gyflwynwyd gan adran 10(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn gwneud darpariaeth i addasu Deddf Iechyd Meddwl 1983 dros dro yng Nghymru a Lloegr mewn meysydd datganoledig a rhai a gedwir yn ôl. Dim ond os bydd effaith COVID-19 yn peryglu gweithrediad Deddf Iechyd Meddwl 1983 i'r fath raddau y bydd yn peri risg i iechyd a diogelwch unigolion â thrallod meddwl y bydd yr addasiadau'n cael eu rhoi ar waith. Yn unol â'r polisi y byddent ond yn cael eu defnyddio fel mesur "pan fetho popeth arall", nid yw'r darpariaethau hyn (ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru) wedi cychwyn yng Nghymru. Ers dechrau pandemig COVID-19, mae swyddogion wedi monitro gweithrediad parhaus rhanddeiliaid perthnasol Deddf Iechyd Meddwl 1983 yng Nghymru a'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU yn agos, a byddant yn parhau i wneud hynny, yn enwedig os bydd ail don ac o ystyried pwysau arferol y gaeaf.

Argymhelliad 7 – Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth lleihau tlodi ar gyfer y Llywodraeth gyfan, gyda thargedau a dangosyddion perfformiad.

Derbyn mewn egwyddor

Mae Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru yn pennu amcanion i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i roi sylw i'r hyn y gwyddom sy'n gweithio, a buddsoddi yn hwnnw, wrth fynd i'r afael â thlodi plant – gan ddefnyddio'r ysgogiadau polisi sydd ar gael inni. Rydym wedi parhau i gadw golwg ar beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i leihau costau i deuluoedd, hybu incwm, a sicrhau bod buddsoddiadau mewn rhaglenni a gwasanaethau yn cyfrannu at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc gymaint â phosibl yn y tymor byr a'r tymor hir.

O ystyried y pwysau ariannol difrifol y mae nifer o deuluoedd yn eu dioddef o ganlyniad i'r pandemig, rydym am ganolbwyntio ar bethau y gallwn eu gwneud nawr. Mae Gweinidogion wedi cytuno ar gyfres o gamau ymarferol brys. Mae'r camau hyn yn amlinellu'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei roi ar waith dros y misoedd nesaf i helpu i gynyddu incwm teuluoedd sy'n byw mewn tlodi a'u cefnogi i feithrin cadernid ariannol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymrwymiad i ddatblygu ein ffordd o fynd ati i lunio polisïau a rhaglenni yn erbyn tlodi yn y dyfodol.

Argymhelliad 8 – Dylai Llywodraeth Cymru gadw at ysbryd a bwriad y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei holl benderfyniadau nes ei chychwyn ym mis Mawrth 2021, a dylai ddatblygu trefniadau dros dro i fonitro sut mae'n cyflawni ysbryd y ddyletswydd cyn ei chychwyn yn llawn.

Derbyn

Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw gweithredu i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol, yn enwedig yng nghyd-destun Brexit ac adfer o COVID-19. Gwneir elfen allweddol o'r gwaith hwn drwy gychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Bydd y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn gymwys i Weinidogion Cymru a rhai cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Rwy'n ymwybodol bod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi annog swyddogion i arwain drwy esiampl a chymhwyso ethos y Ddyletswydd yn eu cyngor i Weinidogion ar benderfyniadau strategol.

Drwy weithredu nawr ac arwain drwy gynnwys ystyriaethau economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu dangos ymrwymiad clir i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i gyflawni'r gofynion statudol a ddisgwylir gennym y flwyddyn nesaf.

Er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus perthnasol i baratoi ar gyfer cychwyn y ddyletswydd yn y dyfodol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau anstatudol ar 1 Ebrill, yn ogystal â dogfennaeth ychwanegol, yn benodol taflen ffeithiau a dogfen 'cwestiynau cyffredin'. Gellir cael gafael ar y rhain i gyd yma – <https://llyw.cymru/y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol>

Argymhelliad 9 – Dylai Llywodraeth Cymru fonitro ac adolygu sut mae awdurdodau lleol yn darparu prydau ysgol am ddim dros wyliau'r haf.

Derbyn

Ymatebodd ysgolion ac awdurdodau lleol yn gyflym i COVID-19, gan roi mesurau ar waith i sicrhau bod teuluoedd sy'n dibynnu ar brydau ysgol am ddim yn gallu eu cael o hyd, hyd yn oed pan nad oeddent yn yr ysgol. Cyflwynwyd ystod o ddarpariaethau a oedd yn amrywio gan ddibynnu ar angen lleol a nodwyd a'r adnoddau a oedd ar gael. I ddechrau, roedd hyn yn cynnwys prydau ysgol "casglu a mynd" ond daeth hyn i ben yn raddol yn ddiweddarach yn unol â gofynion cadw pellter cymdeithasol ac, erbyn gwyliau'r haf, roedd pob awdurdod lleol yng Nghymru naill ai'n darparu talebau archfarchnadoedd, yn rhoi arian parod yn uniongyrchol i rieni, neu'n dosbarthu parseli bwyd. Er mwyn diwallu anghenion y teuluoedd mwyaf agored i niwed, mae nifer o awdurdodau lleol wedi gweithredu mwy nag un system ar yr un pryd. Rhoddodd Llywodraeth Cymru hyd at £40 miliwn i awdurdodau lleol er mwyn eu cefnogi i barhau i ddarparu prydau ysgol am ddim tan 31 Awst 2020. Roedd hyn yn cynnwys darpariaeth dros wyliau'r Pasg, hanner tymor y gwanwyn a gwyliau'r haf.

Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod y cyfnod pan gafodd ysgolion eu haddasu at ddibenion gwahanol neu eu cau ac rydym yn parhau i gyfarfod ag arweinwyr arlwygo ysgolion awdurdodau lleol i drafod yr heriau gweithredol a wynebwyd ac i rannu gwybodaeth. Mae CLILC wedi casglu a chynnal gwybodaeth fanwl am y dulliau a ddefnyddiwyd gan bob awdurdod lleol ac mae'r wybodaeth

hon wedi cael ei defnyddio fel adnodd dysgu a rennir yn ogystal â chofnod monitro. Yn ogystal, mae hawliadau awdurdodau lleol yn erbyn y £40 miliwn a neilltuwyd ar gyfer prydau ysgol am ddim wedi cael eu hasesu gan swyddogion er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â pholisïau Llywodraeth Cymru.

Yn y bôn, mae wedi bod yn fater i awdurdodau lleol benderfynu beth sy'n gweithio orau yn eu hardal. Ni fydd un system o reidrwydd yn gweithio gyda phob teulu ym mhob ardal ac er ein bod wedi cael gwybod am nifer bach iawn o gwynion ynghylch darpariaeth prydau ysgol am ddim, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod hyblygrwydd dulliau lleol wedi gweithio'n dda ar y cyfan ac wedi cael eu croesawu. Yn anecdotaidd, rydym wedi cael gwybod am adborth cadarnhaol iawn gan rieni. Mae'n glir bod rhagor o deuluoedd cymwys yn cael cymorth nawr na chyn y pandemig a'r gobaith yw y bydd hyn yn parhau nawr bod ysgolion wedi ailagor i bob disgybl.

Mae hefyd yn bwysig nodi, os bydd cyfyngiadau symud cenedlaethol neu leol yn cael eu rhoi ar waith, bod gan awdurdodau lleol yng Nghymru systemau hyblyg y gellir eu defnyddio fel rhan o gynlluniau wrth gefn a byddant yn gallu ymateb i amrywiaeth o senarios a digwyddiadau.

Argymhelliad 10 – Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa fesurau gwaith teg ychwanegol y mae'n ystyried eu rhoi ar waith i sicrhau “adferiad yn cael ei arwain gan werthoedd, a'r egwyddorion arweiniol fydd cyfiawnder cymdeithasol, gwaith teg a chynaliadwyedd amgylcheddol”.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cyfres o ddangosyddion canlyniadau sydd wedi'u mapio i bob nodwedd o waith teg a nodwyd gan y Comisiwn Gwaith Teg. Rydym yn bwriadu defnyddio'r gyfres hon o ddangosyddion at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys mesur canlyniadau gwaith teg a chaffael dros amser a helpu i lywio'r broses o ddatblygu a thargedu polisïau yn y dyfodol. Byddwn yn trafod y broses o'u datblygu â phartneriaid cymdeithasol cyn inni wneud unrhyw benderfyniad i'w cyhoeddi.

Argymhelliad 11 – Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n gynt i weithredu argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg nad oes angen deddfwriaeth arnynt, gan gynnwys gwella gwybodaeth am hawliau cyflogaeth a sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddarparu i sefydliadau sy'n bodloni'r safon gwaith teg yn unig.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i flaenoriaethau a dyheadau cenedl gwaith teg fel y'u nodir yn adroddiad Gwaith Teg Cymru. Er bod COVID-19 wedi newid cyd-destun y gwaith hwn yn sylfaenol, rydym yn parhau i weithredu ar yr agenda ac yn blaenoriaethu ymyriadau i gynyddu gwybodaeth gweithwyr a chyflogwyr am hawliau gweithle a ffynonellau cymorth; gwella'r gydberthynas rhwng cyllid cyhoeddus a chyflawni canlyniadau gwaith teg; a gwella canlyniadau mewn meysydd penodol a amlygwyd gan y pandemig, gan gynnwys gofal cymdeithasol ac iechyd a diogelwch.

Argymhelliad 12 – Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu cyllid yn sylweddol i wasanaethau cynghori sydd ag arbenigedd ym maes cyflogaeth, budd-daliadau a gwahaniaethu, gan gynnwys creu llinell gymorth yn benodol ar gyfer gweithwyr BAME a gweithwyr anabl i roi gwybod am bryderon ynghylch diogelwch a gwahaniaethu.

Derbyn

Ers 2014, mewn ymateb i fesurau cyni a diwygiadau lles Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu gwerth £6 miliwn o gyllid grant y flwyddyn i ddarparwyr cyngor, gan sicrhau bod rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru yn gallu cael y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

Yn 2020, gwnaethom gyflwyno'r Gronfa Gynghori Sengl er mwyn helpu i ateb y galw cynyddol am fynediad at wasanaethau cyngor a sicrhau bod gennym ddarparwyr gyda sicrwydd ansawdd yn darparu gwasanaethau cydgysylltiedig. Gan gwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ionawr ac 31 Rhagfyr 2020, mae £8.2 miliwn o gyllid grant wedi cael ei ddyfarnu i ddarparwyr drwy'r Gronfa Gynghori Sengl er mwyn darparu gwasanaethau cyngor, gan gynnwys cyngor arbenigol ar fudd-daliadau lles, cyflogaeth a gwahaniaethu.

Mae llinell gymorth, a ariennir gan Gronfa Frys i Wasanaethau Gwirfoddol Llywodraeth Cymru, yn cael ei sefydlu gan bartneriaid yn y trydydd sector i ymateb i effaith andwyol amrywiol ac anghymesur COVID-19 ar Bobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Bydd y llinell gymorth yn darparu arweiniad a chymorth ar amrywiaeth o faterion a bydd yn cysylltu â TUC Cymru ar gyfer gwaith achos cyflogaeth arbenigol. Mae'r llinell gymorth yn lansio ym mis Medi 2020.

Mae Prosiect Hawliau Dinasyddion yr UE yn ariannu Cyngor ar Bopeth Cymru i ddarparu cyngor arbenigol ar gamfanteisio yn y gweithle. Ariennir y prosiect tan ddiwedd mis Rhagfyr 2020 ac mae'n darparu cyngor, gwasanaethau cyfryngu â chyflogwyr a chymorth mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth, fel y bo angen.

Mae prosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid yn cefnogi ffoaduriaid gyda chymorth arbenigol gyda Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill a chyngor cyflogadwyedd. Bwriedir i'r prosiect fod ar waith tan fis Rhagfyr 2021 ac mae'n gweithredu ym mhedair ardal gwasgaru ceiswyr lloches Cymru, sef Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn bwysicach nag erioed bod pobl yn gallu cael y cyngor sydd eu hangen arnynt. Fodd bynnag, nid ydym mewn sefyllfa i ariannu pob bwlch yn y ddarpariaeth a byddwn yn gweithio gyda chyllidwyr eraill er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyngor yn cael eu darparu mewn ffordd gydgysylltiedig ledled Cymru.

Argymhelliad 13 – Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrch gynhwysfawr ar raddfa eang i sicrhau bod pobl yn manteisio ar y budd-daliadau y mae ganddyn nhw hawl i'w cael drwy gydol y pandemig presennol, ac yn fwy cyffredinol pan fyddwn ni'n symud allan o'r argyfwng presennol.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pa mor bwysig yw hi fod pobl yng Nghymru yn hawlio'r budd-daliadau a'r taliadau lles datganoledig ac annatganoledig sydd ar gael iddynt. Yn ystod eu chwe mis cyntaf (rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2020), helpodd y gwasanaethau cyngor ar fudd-daliadau a ariennir drwy Gronfa Gynghori Sengl Llywodraeth Cymru filoedd o bobl ledled Cymru i ennill gwerth £14 miliwn o incwm drwy fudd-daliadau lles.

Rydym yn cydnabod bod COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar sefyllfaoedd ariannol pobl, ac rydym yn gweithredu ar unwaith i helpu i wneud y gorau o incwm aelwydydd incwm isel ac adeiladu cadernid ariannol. Mae'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip eisoes wedi cytuno i wario £800,000 ar fentrau mwyafu incwm er mwyn rhoi hwb i incwm aelwydydd ledled

Cymru. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi aelwydydd incwm isel i ddod yn ymwybodol o'u hawl gywir i gymorth ariannol drwy'r system budd-daliadau lles a systemau cymorth ariannol ehangach, ac yn eu helpu i gael gafael arno.

Rydym yn ymwybodol bod Argymhelliad 4 o adroddiad eich Pwyllgor ar fudd-daliadau ym mis Hydref 2019 yn ymwneud â nifer y bobl sy'n manteisio ar fudd-daliadau. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau gweithio ar hyn. Rydym wrthi'n ystyried opsiynau mewnol a thrwy bartneriaid allanol ar gyfer ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o hawl a mynediad at fudd-daliadau. Rydym wedi nodi tri grŵp blaenoriaeth yn y lle cyntaf, sef aelwydydd Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, aelwydydd â phlant neu oedolion anabl, ac aelwydydd sydd mewn cyflogaeth â chyflog isel. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried datblygu a gweithredu rhaglen codi ymwybyddiaeth ar gyfer gweithwyr rheng flaen er mwyn gwella eu dealltwriaeth o fudd-daliadau lles a systemau cymorth ariannol ehangach, a fydd yn helpu i gynyddu eu gallu i annog pobl i hawlio'r holl gymorth ariannol sydd ar gael iddynt.

Argymhelliad 14 – Dylai Llywodraeth Cymru oedi camau gorfodi dyled y dreth gyngor am 6-12 mis. Dylai hyn ddod i rym cyn gynted â phosibl.

Gwrthod

Ynghyd â'r system o ostyngiadau ac eithriadau, mae cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor yn rhoi cymorth wedi'i dargedu i aelwydydd incwm isel. Dylai unrhyw un sy'n cael anhawster talu ei fil treth gyngor gysylltu â'i awdurdod lleol i drafod yr ystod o gymorth a allai fod ar gael.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn cydnabod y cynnydd yn y ceisiadau am ostyngiadau'r dreth gyngor o ganlyniad i'r pandemig.

Mae system gorfodi'r dreth gyngor yn rhan hanfodol o'r trefniadau cyffredinol ar gyfer talu a chasglu'r dreth gyngor ac mae ei hangen er mwyn sicrhau bod pob aelwyd sy'n gallu talu yn gwneud hynny. Mae'r prosesau yn cynnwys darpariaeth i awdurdodau lleol wneud trefniadau, megis cynlluniau talu amgen, ag aelwydydd nad ydynt yn gallu talu.

Argymhelliad 15 – Dylai Llywodraeth Cymru ail-frandio'r Gronfa Cymorth Dewisol a chynnal ymgyrch ymwybyddiaeth (ar wahân i'r ymgyrch i annog pobl i fanteisio arni), ar deledu a radio, ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn print.

Derbyn mewn egwyddor

Ers mis Ebrill 2013 mae'r Gronfa Cymorth Dewisol wedi gwneud 362,575 o ddyfarniadau gyda mwy na £64.7m yn cael ei wario ar gyllid grant i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed a chyda 66% o'r gronfa bellach yn mynd ar daliadau brys. Cefnogir y Gronfa Cymorth Dewisol gan rwydwaith o fwy na 550 o sefydliadau rheng flaen sy'n chwarae rhan weithredol ac yn allweddol wrth sicrhau bod y cymorth hwn yn cael ei roi i'r rheini y bwriedir iddo eu helpu. I ategu gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu'r rhwydwaith o bartneriaid, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, ac er bod yr ymgyrch yn cael sylw eang, mae hefyd yn targedu grwpiau penodol. Byddwn yn cadw golwg ar effeithiolrwydd ein hymdrechion i godi ymwybyddiaeth, ac yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y maes cyfathrebu i ystyried y defnydd mwyaf priodol ac effeithiol o gyfryngau prif ffrwd, er mwyn sicrhau bod y dull hwnnw'n briodol ac yn gymesur, a bod y bobl hynny sy'n dioddef caledi ariannol yn ymwybodol o'r cymorth uniongyrchol sydd ar gael iddynt drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol.

Dros nifer o flynyddoedd mae'r Gronfa Cymorth Dewisol wedi datblygu i fod yn frand cydnabyddedig, ac mae wedi cymryd sawl blwyddyn i gyflawni hynny. Rhaid inni sicrhau ei bod yn parhau i gael ei chydabod a'i bod yn parhau i fod ar gael i'r bobl sydd angen ei chymorth fwyaf pan fyddant yn wynebu argyfwng ariannol.

Argymhelliad 16 – Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o arian i wneud taliadau disgresiwn at gostau tai i unrhyw un sy'n gymwys i helpu i atal achosion o droi allan.

Gwrthod

Gellir dyfarnu Taliad Disgresiwn at Gostau Tai pan fydd awdurdod lleol o'r farn bod angen cymorth ariannol pellach ar hawlydd tuag at gostau tai a bod hawl ganddo naill ai i gael Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol i'w helpu gyda chostau tai.

Nid yw cronfa'r Taliad Disgresiwn at Gostau Tai wedi'i datganoli a'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gyfrifol amdani. Bob blwyddyn, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn neilltuo grant Taliad Disgresiwn at Gostau Tai i bob awdurdod lleol. Gall awdurdodau lleol gynyddu eu dyraniad ddwywaith a hanner gwerth y dyraniad grant.

Mae cyllid y gronfa Taliad Disgresiwn at Gostau Tai ar gyfer 2020-21 wedi cynyddu oddeutu £2.1 miliwn yng Nghymru o gymharu â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Eleni mae £10.5 miliwn o gyllid.

Rydym ar ddeall bod pob awdurdod lleol yng Nghymru (heblaw Sir Benfro na chyflwynodd wybodaeth i'r Adran Gwaith a Phensiynau) wedi adrodd ei fod wedi gwario ei gyllideb ddyranedig lawn ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Ar ben hynny, gwnaeth 17 o awdurdodau gynyddu eu dyraniad Taliad Disgresiwn at Gostau Tai ym mlwyddyn ariannol 2019-20.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wrthi'n gwerthuso gwariant y gronfa Taliad Disgresiwn at Gostau Tai er mwyn canfod a yw COVID-19 wedi effeithio ar y defnydd o Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai a'r galw amdanynt. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau am ganfod faint o geisiadau a gafwyd am Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn ystod chwarter cyntaf eleni a chwarter cyntaf y llynedd (2019), ynghyd â'r mathau o geisiadau a gafwyd a gwerth y dyfarniadau a roddwyd. Anogir awdurdodau lleol i gyfrannu at y gwaith hwn oherwydd gorau po fwyaf o wybodaeth a roddir i'r Adran Gwaith a Phensiynau fel y gall ddeall effeithiau'r argyfwng ar awdurdodau. Y gobaith yw y bydd Llywodraeth y DU yn darparu arian ychwanegol *yn ystod y flwyddyn* ar gyfer Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai os bydd ymatebion awdurdodau lleol yn dangos eu bod wedi gwario mwy yn sgil pwysau ariannol COVID-19.

Hefyd, ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau yn ddiweddar yn gofyn am wneud y newidiadau canlynol i'r system Taliad Disgresiwn at Gostau Tai:

- Llacio'r rheol hawlio dros dro er mwyn i'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael Budd-dal Tai na Chredyd Cynhwysol, ond a all fod ar incwm isel, allu cael Taliad Disgresiwn at Gostau Tai. Byddai hyn yn cefnogi pobl sy'n rhentu ac sy'n cael anawsterau am gyfnodau byr os bydd eu hincwm yn gostwng am eu bod yn cael Tâl Salwch Statudol neu ar lai o oriau oherwydd COVID-19. Byddai'r cwmpas yn gyfyngedig gan y byddai'r rhai sy'n colli eu gwaith yn symud i dderbyn Credyd Cynhwysol ac yn cael cymorth felly.
- Newid parhaol i hawlio Taliad Disgresiwn at Gostau Tai pan wneir cais am Gredyd Cynhwysol gyda chostau tai. Byddai'n fwy buddiol yn ariannol os byddai hawl i gael

Taliad Disgresiwn at Gostau Tai yn cychwyn ar ddechrau hawliad Credyd Cynhwysol yn hytrach nag aros tan ddiwedd y cyfnod asesu Credyd Cynhwysol cyntaf.

Yn anffodus, gwrthodwyd y cynigion hyn.

Argymhelliad 17 – Dylai Llywodraeth Cymru archwilio opsiynau ar gyfer caniatáu hawl awtomatig i fudd-daliadau datganoledig fel gostyngiad y dreth gyngor.

Derbyn

O ystyried y pwysau ariannol difrifol sy'n debygol o fod yn wynebu nifer o deuluoedd ar hyn o bryd o ganlyniad i COVID-19, rydym yn cymryd nifer o gamau ymarferol er mwyn helpu i hybu incymau teuluoedd sy'n byw mewn tldi yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru am ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl hawlio cymorth megis pryddau ysgol am ddim a gostyngiadau'r dreth gyngor. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill i nodi atebion posibl i symleiddio'r ffordd y caiff y budd-daliadau neu'r hawliau hyn eu gweinyddu, a sicrhau y defnyddir dull mwy cyson ledled Cymru. Y nod fydd gwneud y budd-daliadau hyn yn fwy hygyrch i deuluoedd sydd mewn angen, yn ogystal â helpu i wneud y broses o weinyddu'r budd-daliadau hyn yn un sy'n defnyddio llai o adnoddau i awdurdodau lleol.

O dan y system waddol mae pasbort i hawliau Llywodraeth Cymru, ond nid dyma'r achos i Gredyd Cynhwysol. Mae system rhannu data ar waith rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau ac awdurdodau lleol sy'n nodi pan all hawlydd Credyd Cynhwysol fod yn gymwys i gael gostyngiad treth gyngor hefyd, ond mae angen i nifer o bobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol wneud cais ar wahân am ostyngiad treth gyngor o hyd. Rydym yn chwilio am atebion ymarferol i hyn.

Argymhelliad 18 – Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cyflym o effeithiolrwydd offeryn asesu risg y Grŵp Cyngori BAME, a sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno i bob sector, ond ei dargedu at y rhai sydd fwyaf mewn perygl.

Derbyn

Roedd *Adnodd Asesu Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu* Cymru gyfan ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf ar 27 Mai 2020. Gan weithio gyda rhanddeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys Cyflogwyr y GIG, darparwyr gofal cymdeithasol ac undebau llafur, cafodd yr Adnodd ei hyrwyddo i'w ddefnyddio ym mhob rhan o'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol. Y flaenoriaeth oedd ei ddarparu'n ddi-oed i'r rhai a oedd angen deall eu risg ar frys er mwyn i'w cyflogwr allu cymryd camau priodol.

Felly er nad oes data monitro ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o ddefnyddwyr cynnar, rydym wedi annog pobl i anfon adborth ansoddol i flwch negeseuon e-bost dynodedig o'r cychwyn cyntaf, yn ogystal â thrwy Grŵp Cyngori Arbenigol y Prif Weinidog ar BAME, yr Is-grŵp Asesu Risg, y Grŵp Gweithredu Gofal Cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Pwyllgor Busnes Fforwm Partneriaeth Cymru.

Mae *Adnodd Asesu Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu* ar gael yn Gymraeg a Saesneg a chaiff ei gefnogi gan [animeiddiad](#) sy'n disgrifio sut i ddefnyddio'r adnodd, ac mae is-deitlau ar gael arno hefyd.

Datblygwyd fersiwn ar-lein ryngweithiol yn gyflym a oedd ar gael o 22 Mehefin. Caiff yr adnodd ar-lein ei letya ar y llwyfan e-ddysgu cenedlaethol, Dysgu Cymru, ac mae ar gael i unrhyw un sy'n gweithio yng Nghymru.

O 20 Gorffennaf, mae staff y GIG wedi gallu defnyddio'r Adnodd o'u Cofnod Staff Electronig unigol. Caiff data dadansoddi cryno o'r fersiwn ar-lein ryngweithiol eu craffu gan swyddogion a'r Is-grŵp Asesu Risg. Cefnogir yr adnodd gan gynllun cyfathrebu cynhwysfawr ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol ac mae wedi'i gynnwys mewn strategaeth gyfathrebu drawsbynciol ehangach sy'n parhau i gael ei datblygu.

Mae heddluoedd yng Nghymru wedi cadarnhau eu bod yn defnyddio fersiwn wedi'i haddasu. Cyfeiriwyd at yr adnodd mewn Canllawiau i'r Sector Addysg hefyd er mwyn cefnogi'r broses o gael disgyblion yn ôl i'r ysgol erbyn 29 Mehefin.

Ar 7 Awst, cyhoeddwyd fersiwn wedi'i haddasu o'r *Adnodd Asesu Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu* a chanllawiau penodol ar gyfer y sector Addysg, Gofal Plant, Gwaith Chwarae, Gwaith Ieuenctid ac Addysg Bellach. Mae'r adnodd ar gael i'r sector Addysg, Gofal Plant, Gwaith Chwarae, Gwaith Ieuenctid ac Addysg Bellach hefyd i'w gwblhau ar-lein drwy lwyfan e-ddysgu cenedlaethol Dysgu Cymru.

Mae canllawiau i gyd-fynd â'r Adnodd ynghyd â chwestiynau cyffredin a ddatblygwyd mewn partneriaeth gymdeithasol â chyflogwyr GIG Cymru ac undebau llafur sy'n mynd i'r afael â gwahaniaethu ac yn cyfeirio at gymorth pellach. Mae'r Canllawiau a'r cwestiynau cyffredin wedi cael eu diwygio ymhellach er mwyn darparu ar gyfer newidiadau i Ganllawiau Llywodraeth Cymru i'r rhai a oedd yn gwarchod eu hunain cyn 16 Awst.

Argymhelliad 19 – Dylai Llywodraeth Cymru sbarduno gwaith y fforwm gwaith teg ar gyfer gofal cymdeithasol gyda golwg glir ar wella cyflog ac amodau gwaith yn y sector. Dylid nodi enillion cyflym, fel talu gweithwyr gofal cartref am yr holl amser a weithiwyd, gan gynnwys amser teithio; gwella cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ffurfiol; a sicrhau bod gweithwyr cartrefi gofal a gweithwyr gofal cartref yn cael eu trin yn gyfartal.

Derbyn

Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol i sefydlu'r Fforwm Gofal Cymdeithasol a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Medi. Grŵp partneriaeth gymdeithasol deirochrog yw'r Fforwm Gofal Cymdeithasol sy'n ymrwymedig i ymwreiddio gwaith teg o fewn gofal cymdeithasol. Bydd yn helpu i greu'r amgylchedd lle gall cynrychiolwyr undebau llafur, cyflogwyr a Llywodraeth Cymru gydweithio i ddylanwadu ar flaenoriaethau a pholisïau cenedlaethol mewn perthynas â gwaith teg yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Y dasg a roddir i'r Fforwm yw ystyried sut y gallwn ddefnyddio'r ysgogiadau polisi sydd ar gael inni i ddylanwadu ar newidiadau tymor byr a hir yn y sector sy'n anelu at gyflawni Gwaith Teg. Mae hynny'n cynnwys gwobrwyo teg, yn ogystal â llais y cyflogai a chydgyrchiolaeth; sicrwydd a hyblygrwydd; cyfle i gael mynediad at waith, i dyfu ac i gamu ymlaen; amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol; ac amgylchedd gwaith sy'n parchu a gwireddu hawliau cyfreithiol.

Ar wahân i hynny, rydym yn cymryd camau i broffesiynoli gwaith gofal cymdeithasol mewn perthynas â gofal cartref a gofal mewn cartrefi preswyl. Er enghraifft, roeddem wedi ei gwneud yn ofynnol i gofrestru gweithwyr gofal cartref a'i gwneud yn wirfoddol i gofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol mewn cartrefi preswyl i oedolion ym mis Ebrill 2020. Ac rydym yn cymryd camau i'w gwneud yn ofynnol i gofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol mewn

cartrefi gofal yn 2022. Disgwylir i weithwyr sydd newydd gofrestru gael y cymwysterau ffurfiol sydd eu hangen arnynt o fewn tair blynedd – a gellir gwneud hynny drwy ddilyn prentisiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Yn ychwanegol at hynny, rydym wedi cyhoeddi gwaith ymchwil yn ddiweddar a gafodd ei gomisiynu gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru i adolygu telerau ac amodau cyflogaeth gweithwyr gofal ar draws amrywiaeth o sectorau gofal cymdeithasol ac ar draws y Gwasanaeth Iechyd. Cafodd yr ymchwil ei chomisiynu i ddeall y graddau y mae telerau ac amodau cyflogau a chyflogaeth yn amrywio ymhlith gwahanol fathau o gyflogwyr, a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar recriwtio staff a chadw staff yn y sector gofal cymdeithasol. Caiff camau nesaf yr ymchwil eu hystyried gan y Fforwm Gofal Cymdeithasol.

Argymhelliad 20 – Dylai Llywodraeth Cymru ddadlau'r achos i Lywodraeth y DU hepgor trethiant ar y bonws o £500 i weithwyr gofal cymdeithasol.

Derbyn

Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i Lywodraeth y DU i bledio'r achos hwn ond, yn anffodus, gwrthododd Llywodraeth y DU y cais.

Argymhelliad 21 – Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i annog pob awdurdod cyhoeddus i hysbysebu pob swydd fel swydd hyblyg yn ddiodyn.

Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater hwn gyda chyflogwyr datganoledig yn y sector cyhoeddus a'r undebau llafur drwy ein strwythurau partneriaeth gymdeithasol.

Argymhelliad 22 – Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth am sut i weithredu gweithio hyblyg teg ac effeithiol i bob cyflogwr sy'n cael cefnogaeth gan y Llywodraeth a gwneud cefnogaeth yn amodol ar gyflogwyr yn gweithredu'r dulliau hyn.

Derbyn mewn egwyddor

Mae'r gallu i alw ar bartneriaid cymdeithasol a rhwydweithiau eraill i ddarparu arweinyddiaeth ac eiriolaeth mewn perthynas â gwaith teg yn un o ddulliau ysgogi allweddol y llywodraeth. Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda chyflogwyr i ddarparu cyngor, cymorth a chyfluoedd ar gyfer dysgu rhwng cymheiriaid ar bob agwedd ar waith teg. Mae'r Contract Economaidd a'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn cynnig cyfle i ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflogwyr ac rydym yn chwilio am ffyrdd o atgyfnerthu system weithredu'r ddau ohonynt er mwyn gwella eu cyrhaeddiad, annog newid ymddygiadol ac atgyfnerthu cysylltiadau rhwng cyllid cyhoeddus a chanlyniadau gwaith teg.

Argymhelliad 23 – Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd o sicrhau cymaint o incwm â phosibl i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys drwy ostyngiadau treth yngor.

Derbyn

Un o'r ffyrdd hawsaf o sicrhau cymaint o incwm â phosibl i ofalwyr yw i gyflogwyr eu helpu i aros mewn cyflogaeth. Nodwyd 370,000 o ofalwyr di-dâl o bob oed yng Nghyfrifiad 2011 a bydd llawer mwy wedi ymgymryd â rôl ofalu o ganlyniad i'r pandemig. Fodd bynnag, mae her economaidd COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar nifer o ddiwydiannau a sectorau

economiaidd gan olygu y bydd gweithwyr yn colli eu swyddi, a bod rhai eisoes wedi colli eu swydd. Fodd bynnag, mae gormod o ofalwyr di-dâl eisoes yn gadael cyflogaeth neu'n lleihau eu horiau gwaith am eu bod yn ei chael hi'n anodd cydbwysu eu cyfrifoldebau gofalu â'u gwaith ac felly'n colli cyfleoedd i ddatblygu eu gyrfa, cael gwell cyflog, neu gyfleoedd i hyfforddi a datblygu.

Dylai gofalwyr nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant allu manteisio ar yr amrywiaeth o wybodaeth, cyngor a chymorth sydd ar gael iddynt ynghylch budd-daliadau, gan gynnwys Lwfans Gofalwr, ond dylent hefyd gael eu cefnogi os ydynt yn dymuno datblygu sgiliau newydd neu gydnabod sgiliau sydd eisoes ganddynt er mwyn helpu unigolion i ddod o hyd i waith neu ddod yn hunangyflogedig. Er mwyn cefnogi'r amcan hwn, yn 2019-20 ariannodd Llywodraeth Cymru Gofalwyr Cymru i gyfieithu a lansio'r cwrs ar-lein "learning for living" yng Nghymru, sydd wedi'i achredu gan Carers UK.

Byddwn yn lansio ymgynghoriad ar gynllun cenedlaethol newydd i ofalwyr ddechrau'r hydref ac yn ceisio barn am amrywiaeth o faterion sydd o bwys i ofalwyr, gan gynnwys pwysau ariannol maent yn eu hwynebu. Wrth ddatblygu'r cynllun terfynol, byddwn yn sicrhau bod dulliau polisi cyson a chysylltiedig mewn perthynas â chymorth a chefnogaeth i bob gofalwr, ac yn gweithio gyda chynrychiolwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector er mwyn deall effaith newidiadau polisi. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi'r cynnig gan Lywodraeth y DU am hawl cyflogaeth ofynnol newydd am wythnos o wyliau di-dâl i ofalwyr ar gyfer cyflogaethion cymwys.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip eisoes wedi cytuno i wario £0.8m ar fentrau mwyafu incwm er mwyn rhoi hwb i incwm aelwydydd ledled Cymru yn dilyn argyfwng COVID-19. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi aelwydydd incwm isel i ddod yn ymwybodol o'u hawl gywir i gymorth ariannol drwy'r system budd-daliadau lles a systemau cymorth ariannol ehangach, ac yn eu helpu i gael gafael arno.

Mae system y dreth gyngor yn ystyried amgylchiadau ariannol cymhleth aelwydydd ac yn ymgorffori amrywiaeth eang o ostyngiadau ac eithriadau.

Argymhelliad 24 – Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r cyfarpar diogelu personol y mae wedi'i gasglu ynghyd i sicrhau ei fod yn parhau i fod o ansawdd digonol a'i fod yn addas at y diben, gan gynnwys bod y dyluniad a'r ffit yn briodol ar gyfer pawb sy'n ei wisgo ac yn addas ar gyfer staff, cleifion neu ofalwyr sy'n fyddar neu â nam ar eu clyw [argymhelliad gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon].

Derbyn

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn gyfrifol am gaffael a dosbarthu cyfarpar diogelu personol ar gyfer y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd yr holl gyfarpar diogelu personol a ddarperir i leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi cael ei ardystio ac yn ddiogel i'w ddefnyddio. Mae'r broses hon yn sicrhau bod y cyfarpar diogelu personol yn bodloni'r gofynion a'r safonau ardystio, cydymffurfio, profi a gweithgynhyrchu gofynnol, gan roi sicrwydd bod staff y GIG a staff gofal cymdeithasol sydd ar y rheng flaen yn ddiogel ac yn hyderus i ymgymryd â'u rolau hollbwysig. Os bydd unrhyw broblemau, er enghraifft os bydd rhai nwyddau yn methu profion ffitio, bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ceisio dod o hyd i opsiynau amgen er mwyn sicrhau bod gan bob aelod o staff gyfarpar diogelu personol priodol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi darparu rhai masgiau clir i'w defnyddio yng Nghymru. Nid yw'r masgiau hyn yn addas i'w defnyddio ym mhob sefyllfa, ond byddwn yn ceisio cynyddu eu defnydd pan fo'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny er mwyn cefnogi pobl sy'n fyddar neu bobl sydd â nam ar eu clyw.

Argymhelliad 25 – Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar y gwaith o weithredu'r argymhellion ynghylch cyfathrebu iechyd cyhoeddus yn adroddiad y Grŵp Cynghori BAME i sicrhau bod negeseuon wedi'u targedu yn cael eu datblygu ar gyfer grwpiau eraill y mae'r coronafeirws wedi effeithio arnynt yn anghymesur, fel pobl hŷn, y rheini o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, pobl anabl a'r rheini â chyflyrau iechyd hirdymor.

Derbyn

Rydym yn parhau i weithio i sicrhau bod negeseuon ar gyfer y rhai mewn grwpiau agored i niwed wedi'u targedu ac yn cael eu lledaenu'n effeithiol, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid.

Bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod ei dudalennau gwybodaeth am y coronafeirws yn cael eu cyhoeddi i fwy na 100 o ieithoedd gan ddefnyddio meddalwedd Recite Me. Mae deunyddiau a gyfieithwyd â llaw hefyd wedi cael eu dosbarthu drwy ein rhwydweithiau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector er mwyn codi ymwybyddiaeth o gyfyngiadau a gwybodaeth ddiogelwch mewn nifer o ieithoedd gwahanol. Mae gwefan Noddfa Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu gwybodaeth wedi'i chyfieithu i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn benodol.

Rydym yn datblygu asedau amlieithog pellach ar gyfer yr ymgyrch Profi Olrhain Diogelu a hefyd yn gweithio ar lansiad ap COVID-19 newydd y GIG gyda thimau yn Llywodraeth y DU, gwaith mapio rhanddeiliaid amrywiol ac amlieithog a datblygu asedau ar sut i ddefnyddio'r ap mewn 11 iaith wahanol.

Argymhelliad 26 – Dylai Llywodraeth Cymru adolygu hygyrchedd ac argaeledd gwasanaethau cymorth iechyd meddwl, yn enwedig i ddynion o grwpiau economaidd-gymdeithasol is.

Derbyn mewn egwyddor / yn rhannol

Byrddau iechyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion eu cymunedau. Mae hefyd yn ofynnol i fyrddau iechyd nodi yn eu hadroddiadau Fframwaith Gweithredu sut y bydd gwasanaethau yn ymateb i anghenion newidiol yn sgil COVID-19, gan gynnwys y galw am wasanaethau iechyd meddwl. Yn genedlaethol, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r wybodaeth o amrywiaeth o arolygon yn rheolaidd – yng Nghymru ac yn y DU – er mwyn ein helpu i ddeall y ffordd y mae COVID-19 yn effeithio ar iechyd meddwl a llesiant. Gwyddom fod lefelau o orbryder wedi cynyddu a bod pobl yn bryderus, sy'n ddealladwy, ac nad ydynt yn poeni am risg COVID-19 yn unig ond hefyd ei effaith ar faterion ariannol, cyflogaeth ac addysg.

O ystyried yr amrywiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar iechyd meddwl, rydym yn gweithio'n drawslywodraethol a chyda phartneriaid i adolygu Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-22 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr. Y nod yw canfod lle mae angen cyflymu neu gryfhau camau mewn ymateb i COVID-19. Mae meysydd y nodwyd bod angen eu cryfhau yn cynnwys gwaith pellach ar effaith iechyd meddwl ar y gymuned Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig a ffocws ar grwpiau economaidd-gymdeithasol is, er enghraifft, cefnogi adferiad cyflogaeth.

Argymhelliad 27 – Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data am y cyllid cynhwysiant digidol ysgolion o £3 miliwn, gan nodi faint o ddisgyblion sydd wedi elwa ohono, a dweud a yw wedi nodi unrhyw fylchau penodol yn y ddarpariaeth na lwyddodd y gronfa i fynd i'r afael â hwy yn ddigonol.

Derbyn mewn egwyddor

Cafodd y cymorth a sicrhawyd drwy'r cyllid gwerth £3 miliwn ar gyfer cynhwysiant digidol ysgolion fel rhan o "Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu" ei ddarparu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol ar y cyd â'u hysgolion.

Mae ein llwyfan dysgu ar-lein arweiniol, Hwb, yn parhau i chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi darpariaeth addysg yn ystod y cyfnod hynod heriol hwn, gyda 2.5 miliwn o fewngofnodion y mis ar gyfartaledd dros y tri mis diwethaf – cynnydd o 131% ar y flwyddyn flaenorol. Hefyd, cafwyd dros 9.1 miliwn o ymweliadau â thudalennau'r wefan y mis ar gyfartaledd dros yr un cyfnod – cynnydd o 152% ar y flwyddyn flaenorol. Mae dros 99% o ysgolion yn defnyddio'r llwyfan yn weithredol.

Er mwyn cefnogi dysgwyr a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol mewn ysgolion a gynhelir, dyrannwyd 10,848 o ddyfeisiau MiFi a 9,717 o drwyddedau meddalwedd i awdurdodau lleol. Yn seiliedig ar adborth gan awdurdodau lleol, drwy eu trefniadau eu hunain neu drwy ein cymorth a ddarperir yn genedlaethol, rydym ar ddeall bod darpariaeth i ddysgwyr a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol bellach ar waith. Os nad yw rhiant/gofalwr wedi manteisio ar y ddarpariaeth hon, dylai gysylltu â'i ysgol leol er mwyn trefnu hyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <https://llyw.cymru/y-diweddaraf-am-ddyfeisiau-chysylltedd-ar-gyfer-dysgwyr-sydd-weddiu-hallgaun-ddigidol-yn-ystod-y>

Argymhelliad 28 – Dylai Cymwysterau Cymru gynnal gwerthusiad o'r trefniadau eithriadol ar gyfer dyfarnu graddau ar ôl i'r broses ddod i ben. Os yw'r gwerthusiad yn datgelu gwahaniaethau uwch na'r cyfartaledd ymysg disgyblion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol, neu sydd o gefndiroedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, dylai Cymwysterau Cymru ymchwilio i'r rhain.

Derbyn

Cyhoeddodd Cymwysterau Cymru ddadansoddiad cydraddoldeb fel rhan o'r cyhoeddiad am ganlyniadau Safon UG a Safon Uwch ar 13 Awst. Yn dilyn y newid mewn polisi i ddyfarnu graddau yn seiliedig ar raddau asesu canolfannau, mae dadansoddiad pellach ar waith a chyhoeddwyd datganiad am hyn yn ddiweddar:

<https://cymwysteraucymru.org/cymraeg/canlyniadau-haf-2020/datganiadau-cymwysterau-cymru/datganiad-ar-gynlluniau-ar-gyfer-datganiadau-ystadegol-pellach/>

Mae Cymwysterau Cymru yn gweithio tuag at gyhoeddi diweddariad i'w drosolwg o ganlyniadau ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi'r mis hwn. Bydd y diweddariad hwn yn rhoi amcangyfrifon mwy cywir am ganlyniadau terfynol Safon Uwch, Safon UG, TGAU a'r Dystysgrif Her Sgiliau yr haf hwn, yn ogystal â chymariaethau â chanlyniadau mewn blynyddoedd blaenorol a'r graddau safonedig arfaethedig. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn diweddarau'r wybodaeth am fylchau mewn cyrhaeddiad ac yn ei hehangu i gynnwys dadansoddiad o ganlyniadau dysgwyr â statws anghenion addysgol arbennig a gwybodaeth bellach am ganlyniadau yn ôl ethnigrwydd.

Mae cynlluniau ychwanegol i gynhyrchu a chyhoeddi'r dadansoddiadau canlynol:

- Dadansoddiad o ganlyniadau, graddau asesu canolfannau a graddau safonedig arfaethedig wedi'u rhannu yn ôl rhanbarth ac awdurdod lleol.
- Fersiwn wedi'i datblygu o'r cyhoeddiad ystadegau ar [amrywiad canolfannau](#) a gynhyrchwyd yn ystod haf 2019, gyda'r bwriad o gynnwys gwybodaeth yn ôl math o ganolfan.

- Dogfen sy'n cyfuno dadansoddiad o'r effaith ar gydraddoldeb â rhai dadansoddiadau manylach.

Argymhelliad 29 – Dylai Cymwysterau Cymru gyhoeddi gwybodaeth mewn fformatau hawdd eu deall a hygyrch am y llwybrau sydd ar gael i ddisgyblion herio'r graddau a ddyfernir iddynt drwy'r trefniadau eithriadol eleni, gan gynnwys ar sail amheuaeth o wahaniaethu anghyfreithlon.

Derbyn

Yn dilyn y newid mewn polisi i ddyfarnu graddau yn seiliedig ar raddau asesu canolfannau, mae Cymwysterau Cymru wedi diweddarau'r broses apelio yn briodol. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Canllaw i Ddysgwyr wedi cael ei gyhoeddi gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth hygyrch er mwyn cefnogi dysgwyr. Mae copi o'r canllaw hwnnw ar gael yma:

<https://cymwysteraucymru.org/cymraeg/canlyniadau-haf-2020/esbonio-apeiadau-2020/guide-for-learners/>

Argymhelliad 30 – Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cronfa ar gyfer dosbarthiadau 'dal i fyny' ar gyfer plant y mae eu haddysg yn fwyaf tebygol o fod ar ei hôl hi yn ystod y cyfnod clo.

Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £29 miliwn ychwanegol i ysgolion er mwyn hybu cymorth i ddysgwyr ar gamau hollbwysig yn eu haddysg o fis Medi. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: <https://llyw.cymru/900-o-staff-addysgu-ychwanegol-mewn-cynllun-i-creiwtio-adfer-chodi-safonau-mewn-ysgolion-yng>.

Argymhelliad 31 – Dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar fodel cyllido cynaliadwy ar gyfer y sector VAWDASV cyn diwedd tymor y Senedd hon. Cyn hyn, dylid cyhoeddi canlyniadau'r ymarfer mapio.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu model ariannu cynaliadwy ar gyfer darparu gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) arbenigol drwy'r Strategaeth VAWDASV Genedlaethol. Er bod nifer o fodelau wedi cael eu cynnig, yn bennaf un a oedd yn cyd-fynd yn agos â model cytûn Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, nid oes unrhyw un o'r modelau wedi cael ei dderbyn yn unfrydol, er gwaethaf ymdrechion dyfal y Cyngorwyr Cenedlaethol i gael consensws.

Mae'r ymarfer mapio yn gofyn am fewnbwn y sector gan ei fod yn cynnwys nid yn unig cyllid Llywodraeth Cymru, ond hefyd y nifer o ffynonellau cyllid a gaiff y sector (y cyfeirir atynt yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru:

https://www.audit.wales/system/files/publications/VAWDASV_eng.pdf). Mae bob rhanddeiliad heblaw un wedi cwblhau'r ymarfer mapio o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Nid yw'n addas cyhoeddi'r ymarfer mapio; dull o lywio'r model ydyw.

Bwriedir i'r model gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r model cyllido cynaliadwy a chaiff grŵp comisiynwyr ei gynnull er mwyn bwydo i mewn i'r broses hon. Mae rhanddeiliaid wedi cytuno ar y broses hon.

Argymhelliad 32 – Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddod o hyd i ffyrdd priodol o gasglu data cam-drin domestig ar gyfer pobl hŷn.

Derbyn

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi data o Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr. Mae'r arolwg hwn yn cofnodi profiad ymatebwyr o drosedd ac fe'i diwygiwyd i gynnwys ymatebion gan bobl hyd at 74 oed (yn flaenorol roedd ond yn cofnodi ymatebion gan bobl hyd at 59 oed). Mae casglu ymatebion pobl dros 74 oed i'r arolwg yn llawer anoddach ac mae'r niferoedd isel yn llai tebygol o gynnig canlyniad sy'n ddilys yn ystadegol.

Mae data'r heddlu yn fesur arall. Mae'r data hyn yn cofnodi troseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn hytrach na phrofiadau pobl o drosedd, ac felly mae'n amrywio gan fod llawer yn dewis peidio â rhoi gwybod am droseddau. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos cam-drin domestig, a dioddefwyr oedrannus sydd leiaf tebygol o roi gwybod am ddigwyddiad, felly ni fyddai'r ffigur hwn yn darparu amcangyfrif cywir.

Bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn ymateb i bryderon ynghylch diogelu oedolion agored i niwed, gan gynnwys yr henoed. Gall hyn gynnig ffynhonnell ddata, er byddai angen nodi'r gwahaniaeth rhwng y diffiniadau o gam-drin domestig a phryderon ynghylch diogelu oedolion. Mae'n amheus a fyddai mynd ar drywydd gwahaniaeth cadarn rhwng cam-drin oedolion a cham-drin domestig at ddibenion mesur yn ychwanegu gwerth at gamau i ddiogelu a chefnogi pobl hŷn.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i sicrhau bod tystiolaeth am oedolion hŷn yn cael ei chasglu'n effeithiol.

Argymhelliad 33 – Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad tymor byr i'r cynllun cyflawni cydlyniant cymunedol a'r fframwaith troseddau casineb ar gyfer gweithredu am weddill tymor y Senedd.

Derbyn

Cafodd y gwaith i ddatblygu cyfres o Egwyddorion Cydlyniant Cymunedol ei oedi o ganlyniad i COVID-19; mae swyddogion wedi gweithio'n agos â phartneriaid ar densiynau sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Caiff yr Egwyddorion eu datblygu ar y cyd â phartneriaid allweddol gyda'r bwriad o nodi diffiniad cytûn a nodau cyffredin er mwyn cydweithio i feithrin a hyrwyddo cydlyniant cymunedol yng Nghymru.

Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn cynhyrchu diweddariad byr ar gynnydd o ran y camau yn y Fframwaith Troseddau Casineb.

Argymhelliad 34 – Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch cadw pellter cymdeithasol i bwysleisio'r gwahanol heriau y mae'r 'normal newydd' yn eu gosod i wahanol bobl.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi hyrwyddo'r angen i barhau i gadw pellter corfforol fel neges allweddol yn ymgyrch bresennol Diogelu Cymru. Rydym hefyd wedi rhoi cyngor rheolaidd i'r rhai sy'n gwarchod eu hunain drwy gyswllt uniongyrchol a gwaith ymgyrchu ehangach. Rydym hefyd wedi cefnogi menter [Distance Aware](#) drwy ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol a gan Weinidogion yn uniongyrchol.

Argymhelliad 35 – Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau cyflym i fusnesau sy'n ailagor ynghylch hygyrchedd ffisegol a chyfathrebu.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau sy'n ceisio helpu busnesau a chyflogwyr drwy gynnig ystyriaethau ymarferol o ran sut y gallent weithredu. Mae'r canllawiau yn seiliedig ar bum egwyddor ar gyfer diogelwch yn y gweithle:

- Gofal: Ein hiechyd a'n llesiant sy'n dod gyntaf
- Cydymffurfio: Rhaid glynu wrth y deddfau sy'n ein cadw'n ddiogel
- Cynnwys: Mae pob un ohonom yn gyfrifol am arferion gwaith diogel
- Addasu: Bydd angen i bob un ohonom newid ein ffordd o weithio
- Cyfathrebu: Rhaid i ni i gyd ddeall beth i'w wneud

Mae Consortiwm Manwerthu Cymru wedi rhoi gwybod inni ei fod wedi tynnu sylw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym mis Ebrill at y camau roedd manwerthwyr wedi'u cymryd i ddarparu ar gyfer cwsmeriaid anabl. Rydym ar ddeall ei fod wedi gallu esbonio yn ystod y trafodaethau hyn y camau rhesymol roedd manwerthwyr wedi'u cymryd i ddarparu ar gyfer cwsmeriaid anabl o fewn cyfyngiadau'r protocolau cadw pellter cymdeithasol.

Mae aelodau Consortiwm Manwerthu Cymru wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd ag elusennau a sefydliadau anabledd. Fel sector, cynhaliwyd tair telegynhadledd ers canol mis Mai, yn cynnwys yr holl fanwerthwyr mawr a'r elusennau. Yn ôl y Consortiwm, mae'r rhain wedi bod yn gyfle gwych i esbonio'r camau y mae manwerthwyr wedi'u cymryd a mireinio prosesau cyfathrebu â staff siopau yn ogystal â gwybodaeth i gwsmeriaid anabl. Nododd fod adborth gan yr elusennau, gan gynnwys Age UK, Cymdeithas Alzheimer's ac RNIB, wedi bod yn gadarnhaol iawn a'i fod wedi croesawu'r cyfle rheolaidd i fynegi materion ar ran ei aelodau.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi nodi bod aelodau wedi meddwl yn ofalus am weithrediad eu siopau yn ystod yr argyfwng a'u bod wedi mireinio eu harferion mewn cysylltiad â'r prif elusennau. Mae'r prif gamau allweddol maent wedi'u cymryd yn cynnwys y canlynol: nifer o fanwerthwyr yn cynnig oriau penodedig ar gyfer cwsmeriaid oedrannus a rhai sy'n agored i niwed, yn ogystal â staff y GIG a'r gofalcwyr sy'n gofalu amdanynt; manwerthwyr yn deall nad oedd ciwio yn briodol i bob cwsmer ac yn briffio eu cyfarchwyr a'u swyddogion ciwio i flaenoriaethu cwsmeriaid anabl; ers dechrau'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol, caniatáu i ofalcwyr siopa gyda chwsmeriaid agored i niwed, hyd yn oed pan oeddent yn cyfyngu ar niferoedd; maent yn bod yn ofalus i sicrhau bod arwyddion mewn siopau am gadw pellter cymdeithasol yn glir i bob cwsmer; a bod yn ofalus wrth ailddylunio siopau er mwyn sicrhau bod modd i bob cwsmer yn gadw pellter cymdeithasol.

Mae manwerthwyr hefyd wedi trefnu hyfforddiant ychwanegol i gydweithwyr, wedi'i gefnogi gan ddiweddariadau mewnol rheolaidd, er mwyn sicrhau bod yr holl weithwyr mewn siopau yn ymwybodol o'r sbectwm o namau a'u bod ar gael i helpu pan fo angen.

Wrth i'r economi ailagor, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd anghenion hygyrchedd y cyhoedd yn cael eu diwallu'n llawn lle bynnag y bo modd, ac os bydd cadw pellter o 2 fetr yn gwneud hynny'n anodd, dylid rhoi trefniadau amgen digonol ar waith er mwyn caniatáu mynediad.

Argymhelliad 36 – Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cynllun dosbarthu nwyddau â blaenoriaeth ar gyfer pobl anabl nad ydynt yn gwarchod (tebyg i gynllun DEFRA/RNIB yn Lloegr).

Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymdrech mae manwerthwyr wedi'i gwneud i ehangu eu darpariaeth archebu ar-lein a danfon i'r cartref, yn enwedig lle maent yn cynnig y gwasanaeth hwn i grŵp ehangach na'r rhai sy'n gwarchod eu hunain. Maent hefyd yn cyflwyno mentrau yn wirfoddol, megis cardiau rhagdal fel bod pobl yn gallu siopa ar ran rhywun arall yn fwy hwylus, ac mae sawl un yn darparu cynlluniau blychau bwyd y gellir eu danfon yn syth i gartrefi pobl. Os oes angen cymorth ymarferol ar bobl ac nad oes ganddynt deulu na ffrindiau'n lleol i ddarparu hyn, mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylent gysylltu â'u hawdurdod lleol neu eu cyngor gwirfoddol lleol.

Rydym hefyd yn falch bod manwerthwyr wedi ymrwymo i ddarparu slotiau archebu ar-lein â blaenoriaeth i'r rhai y cynghorwyd iddynt warchod eu hunain ar ôl i'r cyfnod gwarchod ddod i ben.

Argymhelliad 37 – Dylai Llywodraeth Cymru benodi arweinydd hygyrchedd o fewn Llywodraeth Cymru i oruchwylio'r gwaith o lunio'r holl wybodaeth allweddol am iechyd y cyhoedd a gwybodaeth arall mewn fformatau hygyrch.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod holl ddinasyddion Cymru yn gwybod sut i ddilyn y rheolau a chadw'n ddiogel yn ystod pandemig COVID-19. Dyna pam ein bod yn sicrhau bod dehonglydd laith Arwyddion Prydain ym mhob un o'n cynadleddau newyddion COVID-19 ac yn sicrhau bod fformatau print bras a Braille ar gael ar gais ynghyd â fformatau hygyrch eraill ar gynhyrchion allweddol, megis y llythyrau gwarchod gan y Prif Swyddog Meddygol.

Rydym wedi sefydlu Grŵp Cyfathrebu Hygyrch, a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Mehefin, i drafod a goresgyn y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael gafael ar wybodaeth yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau, sydd wedi bod yn dyst i'r anawsterau y mae'r rhai sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw, pobl ddall neu sydd â nam ar eu clyw, pobl ag anawsterau dysgu neu sy'n awtistig yn eu hwynebu wrth geisio cael gafael ar wybodaeth glir a chryno yn ystod pandemig y coronafeirws. Mae'r Grŵp hefyd yn cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli ffoaduriaid, plant a'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Er bod cael dehonglydd byw mewn darllediadau cyhoeddus yn fan cychwyn da, gwyddom fod llawer mwy i'w wneud o hyd. Mae darparu mwy o wybodaeth mewn Cymraeg neu Saesneg syml, cynhyrchu cynnwys yn laith Arwyddion Prydain ac mewn fformat 'Hawdd ei Wyllo', a gwneud gwell defnydd o fideos a chodau QR ymhlith yr awgrymiadau sy'n cael eu hystyried neu eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i gynhyrchu fersiynau hawdd eu deall o ganllawiau ac osgoi gormod o idiomau, trosiadau a themau technegol a allai beri dryswch i'r rhai ag anawsterau dysgu.

Mae'r angen i ystyried dulliau o rannu gwybodaeth nad ydynt yn rhai ar-lein hefyd wedi cael ei godi yng nghyfarfodydd y Grŵp Cyfathrebu Hygyrch, ynghyd â'r angen i gynhyrchu adnoddau Braille, clywedol a phrint bras i bobl ddall neu sydd â nam ar eu golwg. Gan ystyried yr adborth hwn, rydym wedi gwneud ymdrech weithredol i wella hygyrchedd ein

gwybodaeth am COVID-19, a gellir gweld hyn yn y gyfres o ddeunyddiau hygyrch sydd ar gael ar gyfer adnoddau megis ein hymgyrch Profi Orlhain Diogelu.

Mae cynnig ar gyfer polisi cyfathrebu hygyrch yn y dyfodol hefyd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a fydd yn sicrhau bod holl ddinasyddion Cymru yn cael gwybodaeth glir a dealladwy.

Yn ogystal â'r gwelliannau uniongyrchol rydym wedi'u gwneud, rydym hefyd yn gweithio ar ddogfen a fydd yn nodi'r safonau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyrraedd yn y dyfodol er mwyn gwneud yn siŵr bod dulliau cyfathrebu yn hygyrch ac yn diwallu anghenion pobl ledled Cymru.

Argymhelliad 38 – Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU i godi'r cyfyngiadau 'dim hawl i gael arian cyhoeddus'.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi siarad o blaid newidiadau i'r system fewnfudo yn rheolaidd er mwyn gwella llesiant unigolion, cydlyniant cymunedol, lleihau diymgeledd ac atal digartrefedd. Mae hon yn broses barhaus, gan gynnwys mew'n perthynas â chodi'r cyfyngiadau Dim Hawl i gael Arian Cyhoeddus. Yn gynharach yn y pandemig hwn, ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol at yr Ysgrifennydd Cartref yn ei hannog i godi'r cyfyngiadau hyn yn ystod argyfwng COVID-19 ond ni wnaed hyn. Serch hynny, rydym wedi annog awdurdodau lleol i letya unigolion, ni waeth beth fo'u statws mewnfudo, er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Rydym yn parhau i ystyried cyfleoedd i wella cymorth i'r rhai hynny y mae'r cyfyngiadau Dim Hawl i gael Arian Cyhoeddus yn gymwys iddynt ac rydym wedi darparu cyllid eleni ar gyfer cyngor cyfreithiol arbenigol ac wedi cyhoeddi ymchwil ar opsiynau llety. Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn caffael hyfforddiant a chanllawiau i gefnogi awdurdodau lleol i ddeall hawliau mudwyr yn well yn ogystal â'u hawl i wasanaethau.

Argymhelliad 39 – Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r cynlluniau a'r rhwydweithiau cydlyniant cymunedol a throseddau casineb cyfredol (yn unol ag argymhelliad 33) gyda'r bwriad o ddatblygu strategaeth integreiddio yn yr hirdymor.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar unigolion sy'n sicrhau bod unigolion yn gallu integreiddio, ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau. Adlewyrchwyd y dull hwn wrth ddatblygu dogfennau polisi megis *Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr* (2018) a *Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches* (2019), ac roedd hefyd yn hanfodol wrth roi'r prosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid a'r Rhaglen AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid a'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Ranbarthol ar waith.

Ein nod hirdymor yw creu dull integredig mesuradwy sy'n cael effeithiau cadarnhaol clir ar gymunedau. Y dull cychwynnol yw datblygu Egwyddorion Cydlyniant Cymunedol gyda diffiniadau cytûn o gydlyniant cymunedol a dulliau effeithiol, gan ymchwilio i setiau data gwell sy'n ein galluogi i fonitro dangosyddion integreiddio yn well. Heb y gwaith paratoi hwn yn y byrdymor i'r tymor canolig, nid yw'n debygol y bydd strategaeth integreiddio yn cael yr effaith ddymunol.

Argymhelliad 40 – Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill ar-lein.

Derbyn

Fel rhan o'r prosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid, mae colegau wedi bod yn addasu i'r ffaith y bu'n rhaid cau campysau yn sgil COVID-19 drwy ehangu eu harlwy o ddsbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill a ddarperir ar-lein. Mae hwn wedi bod yn drefniant cadarnhaol sydd wedi dangos ffordd ddichonadwy o weithio yn y dyfodol. Fodd bynnag, bydd angen gweithio drwy rwystrau digidol i rai carfanau o hyd – megis ceiswyr lloches – sydd wedi cael anawsterau gyda chostau data a chysylltu â'r rhyngwyd.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau cadw pellter cymdeithasol, mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu addysg i oedolion o fis Medi 2020 yn annog lleoliadau i barhau i ddarparu dysgu cyfunol a digidol lle y bo modd, ac rydym wedi darparu £3.2m o gyllid i golegau ac awdurdodau lleol brynu cyfarpar TGCh ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol nad oes ganddynt eu dyfeisiau eu hunain neu sy'n cael problemau wrth geisio cysylltu â'r rhyngwyd.

Byddwn yn mynd ar drywydd problemau ynghylch rhwystrau ieithyddol wrth gael mynediad at ddsbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill ar-lein gyda'r rhwydwaith a chanolfannau REACH.

Argymhelliad 41 – Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ymfudwyr i staff gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen.

Derbyn

O dan Brosiect Hawliau Dinasyddion yr UE, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu hyfforddiant i staff rheng flaen gwasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau eu bod yn deall hawliau mudwyr yn well yn ogystal â'u hawl i wasanaethau. Bydd hyn yn cwmpasu materion gan gynnwys y rhai heb hawl i arian cyhoeddus, y rhai sydd â statws preswlydd sefydlog a statws preswlydd cyn-sefydlog, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, a charfanau eraill. Rydym yn bwriadu darparu'r hyfforddiant hwn tua diwedd 2020 a dechrau 2021.

Argymhelliad 42 – Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rhaglenni ymwybyddiaeth y Cynllun Preswlyo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn cael eu rhedeg mewn ffyrdd amgen sy'n ystyried y cyfyngiadau parhaus ar gyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Derbyn

Yn ystod pandemig COVID-19, aeth Newfields Law, Cyngor ar Bopeth Cymru a Settled ati i addasu eu gwasanaethau er mwyn parhau i godi ymwybyddiaeth a chynnig cyngor ar y Cynllun Preswlyo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cyfleusterau fideo gynadleda ar y we i gynnal cyfarfodydd, rhoi cyflwyniadau a chynnal gweminarau, cynyddu eu presenoldeb ar y cyfyngau cymdeithasol a defnyddio'r amser i ddatblygu, cyfieithu, cyhoeddi a dosbarthu canllawiau a fideos gwybodaeth.

Cydweithredodd Newfields Law, MIND Casnewydd a swyddog cydlyniant cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i greu fideo yn esbonio rhai o'r senarios posibl mwy cymhleth y mae ymgeiswyr y Cynllun Preswlyo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn eu hwynebu, ac mae hwn wedi cael ei wyllo dros fil o weithiau.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi cael eu defnyddio i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf a chynnal presenoldeb gweithredol. Bydd Newfields Law yn rhoi cyhoeddusrwydd i

ddigwyddiadau yn rheolaidd ac yn rhannu erthyglau ar y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, a chynhaliodd Cyngor ar Bopeth Cymru ymgyrchoedd hyrwyddo ar Facebook a Twitter i hysbysebu bod y gwasanaeth cyngor ar agor o hyd.

Mae Settled wedi parhau i redeg ymgyrchoedd drwy Twitter, Facebook a WhatsApp. Denodd tudalen Facebook Settled nifer o ddilynwyr newydd ac mae Settled bellach yn cynnal fforymau Facebook yn Eidaleg, Sbaeneg, Almaeneg, Rwmaneg a Bwlgareg.

Mae gweminarau wedi bod yn ffordd ddefnyddiol o gyfathrebu i'r holl ddarparwyr gwasanaethau. Trefnodd Cyngor ar Bopeth Cymru gyfres o weminarau wythnosol a gafodd eu hysbysebu a'u cynnal ar y cyd â Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid Cymru (gwasanaeth cymorth ar gyfer pobl ifanc, teuluoedd ac unigolion BME, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru). Trafodwyd cyngor cyffredinol a chyngor ar y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn y digwyddiadau ar-lein hyn a gallai cleientiaid wneud cais am apwyntiad un i un dros y ffôn neu drwy ddull digidol.

Yn ystod y cyfnod, mae Settled wedi cynnal gweminarau gan ddefnyddio Zoom a Facebook a hynny drwy gyfrwng Eidaleg, Sbaeneg, Bwlgareg, Rwmaneg, Pwyleg, Slofaceg, Almaeneg a Ffrangeg. Mae rhai o'r gweminarau hyn wedi cael eu hailadrodd, neu byddant yn cael eu hailadrodd, ac mae gweminarau drwy gyfrwng Lithwaneg a Phortiwgaleg wedi'u trefnu.

Mae'r gweithgareddau hyn yn ychwanegol at y ddarpariaeth cyngor dros y ffôn ac ar e-bost sefydledig a'r defnydd o e-bost a phost i roi trosolwg o'r cymorth sydd ar gael gan wasanaethau cyngor y mae'r holl bartneriaid gwybodaeth a chyngor yn eu darparu. Mae gan Cyngor ar Bopeth Cymru a Settled linell gymorth iaith gyntaf lle gall cleientiaid drefnu i rywun eu ffonio yn ôl i roi cyngor iddynt yn eu dewis iaith.

Argymhelliad 43 – Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data wedi'u dadgyfuno yn ôl nodweddion gwarchoddedig ar y cymorth y mae wedi'i ddarparu i fusnesau o ganlyniad i'r pandemig.

Derbyn mewn egwyddor

Nid yw'r mwyafrif o'r cymorth wedi cael ei ddyfarnu i unigolion. Er enghraifft, mae Ardrethi Annomestig ar gyfer eiddo sy'n talu ardrethi ac felly darpariaeth gyffredinol yw hon ac nid yw'n ystyried nodweddion.

Byddwn yn asesu effaith ar gyfer y Gronfa Cadernid Economaidd ac Ardrethi Annomestig, gan gynnwys drwy astudiaeth effaith lawn ac astudiaeth arolwg. Mae hyn yn debygol o gwmpasu perchenogion/cyfarwyddwyr, ond nid cyflogaeth lawn y busnes.

Bydd ein gwerthusiad yn cwmpasu effaith y Gronfa Cadernid Economaidd. Byddwn yn dadansoddi data er mwyn canfod faint o fusnesau a gefnogwyd a faint o swyddi a gadwyd, ac i ddadansoddi sectorau a daearyddiaeth. Gallwn ddadansoddi perchenogion busnesau rhywfaint yn ôl grwpiau demograffig, pan fydd y data hyn gennym. Bydd arolwg yn dilyn yn ddiweddarach er mwyn cael gwybodaeth ansoddol. Rydym yn gweithio gyda phortffolios eraill ar draws Llywodraeth Cymru i ystyried y cwestiynau ar gyfer yr arolwg. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein canfyddiadau yn 2021.

Argymhelliad 44 – Dylai Llywodraeth Cymru dargedu rhaglenni cyflogaeth at y rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn glir o ran ei hymrwymiad i greu Cymru mwy ffyniannus a chyfartal, gan geisio sicrhau cydraddoldeb i bawb. Mae gwneud yn siŵr bod gan drigolion Cymru gyfleoedd i sicrhau swyddi, ac yna ddatblygu yn eu gyrfaoedd, yn flaenoriaeth glir o hyd.

Mae'r cynllun Cyflogadwyedd, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, yn cynnwys ymrwymadau i gefnogi'r rheini sydd bellaf o'r farchnad, a chynyddu nifer y bobl anabl sy'n gweithio. Rydym wedi mabwysiadu dull trawslywodraethol i gychwyn ar y newidiadau graddol sydd eu hangen i ddileu'r rhwystrau sy'n wynebu'r bobl fwyaf dan anfantais sy'n chwilio am waith, ac rydym wedi gwella ein rhaglenni er mwyn darparu dull o roi gwybodaeth, canllawiau a chymorth mewn perthynas â chyflogaeth, sydd wedi'i deilwra i'r unigolyn.

Mae ein Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol yn cynnwys tair rhaglen a ariennir drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru: Cymunedau am Waith, Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth a Chymunedau am Waith a Mwy. Mae'r cymorth wedi'i dargedu at y rhai sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith hirdymor, gan ganolbwyntio ar y rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur sy'n byw yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, y rhai lle mai gofal plant yw'r prif rwystr sy'n eu hatal rhag cael addysg neu gyflogaeth, a'r rhai sy'n byw mewn tlodi neu sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi. Ar 30 Mehefin 2020, roedd y rhaglenni wedi ymgysylltu â thros 48,000 o unigolion ac wedi cefnogi 18,000 o bobl i ddod o hyd i waith.

Fodd bynnag, mae perygl y bydd COVID-19 yn gwrthdroi cynnydd a wnaed i leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd dros y degawd diwethaf, ac mae'r risgiau i swyddi a busnesau ar raddfa ddigynsail. Mewn ymateb i COVID-19, ar 28 Gorffennaf cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru Ymrwymiad COVID i Gyflogadwyedd a Sgiliau. Rydym wedi ymrwmo i fuddsoddi bron £40 miliwn er mwyn cynnig cyngor a chymorth i bobl 16+ oed ddod o hyd i waith, dod yn hunangyflogedig neu ddod o hyd i le ar gwrs addysg neu hyfforddiant, gyda chymhellion cyflogi i gyflogwyr recriwtio unigolion y mae COVID-19 wedi effeithio fwyaf arnynt. Bydd pobl ifanc 16-24 oed, pobl anabl, pobl o gymunedau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig, menywod a'r rhai y mae pandemig COVID-19 wedi effeithio fwyaf arnynt, yn cael eu blaenoriaethu. Bydd angen y pecyn cynhwysfawr hwn o gymorth cyflogadwyedd a sgiliau yn ystod y misoedd nesaf er mwyn sicrhau y gallwn roi cymorth amserol i gyflogwyr ar eu hanghenion sgiliau a hyfforddiant yn ogystal â sicrhau y gall pobl Cymru uwchsgilio ac ailsgilio a dod o hyd i waith.

Rydym yn cefnogi busnesau yn ogystal ag unigolion er mwyn creu'r amodau i bobl ffynnu yn y gwaith. Rydym yn recriwtio Hyrwyddwyr Cyflogaeth i Bobl Anabl ar hyn o bryd a fydd yn gweithio gyda chyflogwyr ledled Cymru i wneud gweithleoedd yn fwy cynhwysfawr ac i gefnogi prosesau recriwtio a chadw pobl anabl yn well. Byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid i ganolbwyntio adnoddau er mwyn cynyddu ymgysylltiad a chefnogi'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur, ac i ganolbwyntio ein hymdrechion ar y rhai y mae'r pandemig wedi effeithio fwyaf arnynt, megis pobl ifanc, pobl o gymunedau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig a phobl anabl.

Mae prosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid yn cefnogi ffoaduriaid i ddod o hyd i waith oherwydd y rhwystrau sylweddol maent yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad i'r farchnad lafur. Bydd y prosiect ar waith tan fis Rhagfyr 2021, gan gefnogi o leiaf 720 o ffoaduriaid yn uniongyrchol, drwy ddatblygu pecynnau cymorth a gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr a fydd yn cefnogi ffoaduriaid ychwanegol yn anuniongyrchol.